# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Gwilym O. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Robin Williams<br><br>Aelodau Lleyg: Dilwyn Evans, Jonathan Mendoza |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio a Risg (AS)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr R. Llewelyn Jones, John Griffith (Aelod Portffolio Cyllid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Gwilym Bury (Arweinydd Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru), Wil Bevan (Rheolwr, Deloitte) Prif Weithredwr, Prif Archwilydd Mewnol (EW) Uwch Archwilydd Mewnol (SJ), Uwch Archwilydd Mewnol (EC) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL - 13 CHWEFROR, 2018**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2018 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi -

• Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar y sefyllfa o ran parodrwydd ysgolion mewn perthynas â pharatoi ar gyfer gweithredu'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ym mis Mai, 2018; gofynnodd y Pwyllgor hefyd am eglurhad ynghylch a yw'r archwiliad mewnol y bwriedir ei gynnal yn gynnar yn 2018/19 yn ddigon amserol o ran tynnu sylw at unrhyw broblemau gyda chydymffurfiaeth â GDPR .

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod yr archwiliad mewnol ar y gweill a bod y canfyddiadau drafft dilynol wrthi'n cael eu trafod gyda'r Swyddog perthnasol ar gyfer eu gwirio a'u cytuno cyn i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi. Bwriad yr Archwiliad Mewnol yw adrodd ar ganlyniad yr archwiliad a'r lefel sicrwydd a roddwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

• Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar y sefyllfa o ran yr Adolygiad Dilyn-i-fyny cyntaf o'r Fframwaith Caffael Corfforaethol a oedd wedi nodi dau o gamau nad oeddent wedi'u cwblhau oherwydd diffyg ymateb gan y swyddogion perthnasol.

Hysbysodd y Pennaeth Archwilio a Risg y Pwyllgor mai swyddog dros dro yn darparu gwasanaeth wrth gefn oherwydd absenoldeb salwch oedd y Swyddog a luniodd yr ymateb mewn perthynas â'r Fframwaith Caffael Corfforaethol. Mae'r Swyddog parhaol wedi dychwelyd i'r gwaith bellach ac wedi cael gwybod am yr argymhellion a oedd yn parhau i fod angen sylw ac wedi gweithredu arnynt.

**3 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 2017/18**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer 2017/18 ar gyfer ei gymeradwyo gan y Pwyllgor. Mae'r adroddiad yn manylu ar weithgareddau Archwilio a Llywodraethu yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y cynnydd a wnaed o ran y camau gweithredu a godwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2017/18 fel y'u gwelir yn Atodiad A yr adroddiad.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, fel rhai o'i gylch gorchwyl, adrodd yn flynyddol ar ei weithgareddau i'r Cyngor Llawn a bod yr adroddiad uchod yn cwrdd â'r gofyniad hwnnw.

Nododd a derbyniodd y Pwyllgor y trosolwg o'i weithgareddau a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol. Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa mewn perthynas â'i Gylch Gorchwyl a oedd i fod i gael ei adolygu yn ôl ym mis Medi, 2017. Roedd y dasg honno wedi cael ei gohirio hyd oni fyddai canllawiau diwygiedig CIPFA wedi cael eu cyhoeddi.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod CIPFA wedi bod yn gohirio cyhoeddi ei ganllawiau newydd er fod y gwaith wedi cael ei gwblhau gan ei fod wedi bod yn disgwyl i'r Swyddfa Gartref gyhoeddi ei Gôd Ymarfer Ariannol newydd sy'n effeithio ar bwyllgorau archwilio'r heddlu. Mae CIPFA bellach wedi cadarnhau y bydd y canllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi yn ystod Ebrill 2018 beth bynnag. Dywedodd y Swyddog y byddai hi felly'n adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn erbyn canllawiau diwygiedig CIPFA ac yn argymell unrhyw welliannau fel sy'n briodol i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, 2018.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn awyddus i achub ar y cyfle i ddiolch i'r Aelodau a'r Swyddogion a oedd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dygodd sylw at bwysigrwydd gwaith y Pwyllgor a'i berthnasedd penodol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni o ran sicrhau bod y Cyngor yn cael ei redeg mewn ffordd gadarn a bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau.

**Penderfynwyd cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer 2017/18 ar gyfer ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 15 Mai, 2018.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**4 ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH PERFFORMIAD**

Cyflwynwyd – i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad diweddaru ar y Rhaglen Waith Perfformiad Archwilio Allanol, yn cynnwys y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ac sydd wedi ei gynllunio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar lefel genedlaethol ac yn benodol i Ynys Môn.

Cyfeiriodd Mr Gwilym Bury, Arweinydd Archwilio Perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru yn benodol at statws adroddiadau lleol a phryd y bwriedir eu cyhoeddi. O ran gwaith gan reoleiddwyr eraill, ac eithrio'r rhaglen ar gyfer arolygu ysgolion lleol, dywedodd nad oedd unrhyw arolygiad o Wasanaeth Addysg Ynys Môn wedi cael ei gyhoeddi eto. Yn yr un

modd, nid yw Arolygiaeth Gofal Cymru (AGGCC gynt) eto wedi cyhoeddi unrhyw waith dilyn-i-fyny lleol yng Nghyngor Sir Ynys Môn.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y ffactorau sy'n penderfynu o ran sefydlu amserlen ar gyfer cyhoeddi adroddiadau Archwilio Allanol oherwydd ymddengys bod dyddiad cyhoeddi rhai adroddiadau yn benagored. Dywedodd Mr Gwilym Bury bod yr amserlen ar gyfer cyhoeddi adroddiadau lleol yn fwy penodol gan ei bod yn golygu ymgynghori gydag un awdurdod lleol ar y tro. Gydag adroddiadau cenedlaethol, gall yr amserlen fod yn fwy amhenodol oherwydd yr angen i ymgynghori nid yn unig gyda'r 22 awdurdod lleol ond hefyd â Llywodraeth Cymru, a, chan ddibynnu ar yr ardal a adolygir, gyda chyrff perthnasol eraill hefyd.

Mewn perthynas ag adolygiad yr Archwilwyr Allanol o barodrwydd y Cyngor i gefnogi cyflawniad prosiect Wylfa Newydd, nododd y Pwyllgor mai'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan y Cyngor oedd cynnwys yr holl Aelodau o'r cychwyn cyntaf i graffu ar ddatblygiad a dilyniant y prosiect yn hytrach na neilltuo'r dasg i'r naill neu'r llall o'r pwyllgorau sgriwtini er mwyn sicrhau bod yr holl Aelodau yn cael eu diweddaru ac yn gallu herio ym mhob un o'r cyfnodau allweddol.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad mewn perthynas â gwaith archwilio ariannol y broses ar gyfer gosod y ffi sy'n daladwy i Deloitte fel archwilwyr ariannol y Cyngor. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) fod Deloitte yn cael ei gontractio i wneud gwaith archwilio ariannol yn y Cyngor ar ran Swyddfa Archwilio Cymru; mae'r ffi sy'n daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys taliad am y gwaith archwilio ariannol a wneir gan Deloitte.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r diweddariad ar Raglen Waith Perfformiad Archwilio Allanol.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 5 ARCHWILIO ALLANOL: CYNLLUN ARCHWILIO 2018

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor – yr adroddiad Archwilio Allanol yn ymgorffori'r Cynllun Archwilio arfaethedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/2018. Nodwyd yn y Cynllun yr ymagwedd archwilio, y risgiau archwilio ariannol allweddol, crynodeb o waith archwilio perfformiad a gwaith ardystio grantiau ynghyd ag amcangyfrif o'r ffioedd.

Adroddodd Mr Wil Bevan, Rheolwr, Deloitte yn benodol ar y risgiau archwilio ariannol allweddol a nodwyd yng nghyfnod cynllunio yr archwiliad, sef meysydd lle ystyrir bod y risg o gamddatganiad sylweddol yn arwyddocaol ac sydd o'r herwydd angen ystyriaeth archwilio arbennig. Amlinellir y rhain yn Arddangosyn 2 yr adroddiad, a nodir hefyd yr ymateb archwilio arfaethedig o ran mynd i'r afael â'r risgiau a amlygwyd. Dywedodd y Swyddog fod yr archwiliad ariannol wedi'i drefnu i'w gwblhau ym mis Mehefin / Gorffennaf ac i gael ei lofnodi'n derfynol ym mis Medi.

Nododd y Pwyllgor yr wybodaeth. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y sefyllfa mewn perthynas â chwblhau'r Hawliad Budd-dal Tai ar gyfer 2016/17 oherwydd y dywedwyd bod angen gwneud gwaith ychwanegol arno.

Dywedodd Mr Wil Bevan bod yna faterion sylweddol yn gysylltiedig â'r Hawliad Budd-dal Tai 2015/16; o ganlyniad mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n mynnu bod gwaith profi samplau ychwanegol yn cael ei wneud yn unol â'r Fframwaith Archwilio Grantiau yng nghyswllt hawliad 2016/17. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo yn bennaf oherwydd graddfa'r gwaith sy'n dod i'r Cyngor o ran edrych ar hawliadau penodol a hefyd i'r

Archwiliwr wrth eu hadolygu. Mae'r hawliad ei hun wedi'i gwblhau ond mae yna waith sylfaenol sylweddol y mae angen ei wneud o ran profi'r hawliad. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 na ellid cwblhau'r Hawliad Budd-dal Tai ar gyfer 2016/17 hyd nes bo'r hawliad ar gyfer 2015/16 wedi cael ei gwblhau - bu oedi oherwydd problemau gyda'r hawliad olaf. Mae yna fater capasiti hefyd gan mai un swyddog yn y Gwasanaeth Cyllid sydd â'r wybodaeth fanwl i gynorthwyo'r Archwilwyr gyda'r agwedd hon o'u gwaith. Mae'r Swyddog penodol hefyd yn ymwneud â gwaith rheoli ariannol diwedd blwyddyn sy'n golygu y caiff adnodd medrus ei dynnu o'r broses am gyfnod ar ddiwedd y flwyddyn ac nad ydyw ar gael i gefnogi'r archwilwyr. Rhaid cytuno ar amserlen gyda'r archwilwyr i gwblhau'r gwaith hwn. Mae'r hawliad am grant Budd-dal Tai yn gais cymhleth iawn ac er mai tîm bychan yn y Gwasanaeth Cyllid sy'n ymwneud â chwblhau'r gwaith er boddhad yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r archwilwyr, mae'r gofynion yr un fath arnynt ag ar gyfer awdurdodau lleol mwy sydd gyda llawer iawn mwy o staff yn ymwneud â'r orchwyl. Cytunir ar unrhyw ffi ychwanegol ar gyfer y gwaith ychwanegol a wneir mewn trafodaethau rhwng y Swyddog Adran 151, Swyddfa Archwilio Cymru ac Arweinydd Ymgysylltu Deloitte ar gyfer Archwiliad Ariannol.

Nododd y Pwyllgor fod prisiadau eiddo wedi'u nodi fel risg archwilio ariannol. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw'r archwilwyr, o safbwynt prisiadau eiddo, yn canolbwyntio ar gywirdeb y prisiad o ran asedau'r Cyngor neu'r gwerth am arian a gafwyd wrth gael gwared ar asedau. Dywedodd Mr Wil Bevan fod yr archwilwyr yn canolbwyntio ar y prisiad ac ar yr mewnbynnau a ddefnyddiwyd i gyrraedd y pris hwnnw; o ystyried bod prisiadau eiddo yn cynnwys barnau ac amcangyfrifon a bod y ffigwr ar gyfer prisiadau tir ac adeiladau ym Mawrth, 2018 yn £288m, gall unrhyw newidiadau yn y barnau a'r amcangyfrifon gael effaith sylweddol ar y gwerth cario. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 nad yw gwerth asedau'r Cyngor fel y darperir ar ei gyfer yn y cyfrifon yn gyfwerth â'u gwerth ar y farchnad e.e. pe bai stoc dai'r Cyngor ei hun yn cael ei werthu fel eiddo heb denant, byddai eu gwerth yn debygol o fod yn fwy na'r gwerth cario ar y Fantolen sy'n adlewyrchu'r ffaith bod tenant ynddynt ac nad oes modd eu gwerthu felly. Mae'n driniaeth gyfrifeg nad yw'n rhoi gwir adlewyrchiad o werth asedau'r Cyngor.

Mewn perthynas ag Archwiliad Perfformiad, nododd y Pwyllgor y cyfeirir at newidiadau yn sail statudol gwaith yr Archwilydd Allanol a gofynnodd am eglurhad ynghylch hyn .Cadarnhaodd Mr Gwilym Bury fod yna gynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth newydd a fydd yn disodli Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) ond hyd nes y bydd hynny'n digwydd, mae'n rhaid i SAC yn ogystal â'r cyngor gydymffurfio â gofynion y Mesur. Yn ogystal, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi gosod cyfrifoldebau newydd ar gynghorau sy'n golygu bod raid iddynt ystyried cynaladwyedd a chenedlaethau'r dyfodol wrth wneud newidiadau strategol, ac ar WAO o ran asesu cydymffurfiaeth y cynghorau gyda hynny.

**Penderfynwyd derbyn Cynllun Archwilio 2018 a nodi ei gynnwys.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**6 DIWEDDARIAD AR GYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn nodi gwaith Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod ers y cyfarfod pwyllgor diwethaf o'r pwyllgor.

Rhoes y Pennaeth Archwilio a Risg grynodeb o'r prif ystyriaethau fel a ganlyn -

• Bod un adroddiad wedi'i gwblhau yn ystod y cyfnod a oedd yn ymwneud â **Threfniadau Rheoli Prosiectau a Rhaglenni** ac yn benodol, llywodraethu rhaglenni a

rheoli prosiectau. Arweiniodd yr adolygiad archwilio lefel uchel at raddfa Sicrwydd Rhesymol ar ôl canfod bod llawer o waith wedi'i wneud i sicrhau bod prosiectau a rhaglenni'r Cyngor yn cael eu llywodraethu'n briodol gyda sefydlu dau Fwrdd Rhaglen Gorfforaethol, y cymorth a ddarperir gan y rheolwyr prosiect corfforaethol a'r fethodoleg rheoli prosiect sy'n cael ei defnyddio a'i hyrwyddo'n gorfforaethol. Codwyd dwy o risgiau cymedrol ar gyfer sylw'r rheolwyr. Canfuwyd yn ystod yr adolygiad nad oes digon o sylw yn cael ei roi i gofrestrau asesu effaith a risg ac nid oes unrhyw sôn am y rhain yng nghofnodion cyfarfodydd. Dylai asesiadau effaith gael eu defnyddio i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gydag ymwybyddiaeth lawn o'r modd y maent yn effeithio ar wahanol rannau o'r gymuned.

• Cwblhawyd un adolygiad dilyn-i-fyny yn y cyfnod hwn mewn perthynas â **Thrafnidiaeth Ysgol**. Cadarnhaodd yr adolygiad fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at wella trefniadau Cludiant Ysgol a mynd i'r afael â'r materion / risgiau a godwyd yn yr adroddiad ar yr adolygiad Archwilio Mewnol. Ymdriniwyd yn llawn ag un ar ddeg o'r risgiau a nodwyd yn yr adroddiad archwilio; mae tair o'r risgiau wedi cael eu gweithredu'n llawn neu wrthi'n cael eu gweithredu; mae'r rhain yn amodol ar gyhoeddi bathodynnau adnabod i bob gyrrwr bysiau ysgol ym mis Medi 2018, bod y system Capita ONE yn weithredol ac y cynhelir adolygiad o feini prawf cymhwyster tacsis ysgol ynghyd ag adolygiad o'r gyllideb ar gyfer tacsis ysgolion. Mae dwy risg yn parhau i fod angen sylw ac maent yn canolbwyntio ar y broses gaffael nesaf pan fydd yr Adran Drafnidiaeth yn adolygu telerau ac amodau'r contractwyr presennol. Ystyrir bod y Cyngor wedi dangos cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r materion a'r risgiau a godwyd ac o ganlyniad mae'r raddfa sicrwydd wedi cynyddu i Sicrwydd Rhesymol.

• Mae tynnu'n ôl y cyfleuster sy'n galluogi rheolwyr i ymestyn dyddiadau targed ar gyfer gweithredu ar risgiau / materion / argymhellion heb gyfeirio at Archwilio Mewnol wedi arwain at y gostyngiad disgwyliedig mewn perfformiad dros y tymor byr. Serch hynny, mae hon yn broses fwy cadarn ar gyfer sicrhau bod risgiau'n cael sylw ac yn lleihau'r risg o "ddrifft". Yn ogystal, mae'r Cyngor, drwy gymryd camau gweithredu penodol, wedi gwella ei berfformiad yn raddol ac yn gyson dros y 15 mis diwethaf gyda gwelliant sylweddol o flwyddyn i flwyddyn fel y tystiwyd gan y graff yn adran 18 yr adroddiad. Cyflwynir adroddiad manylach ar yr holl argymhellion a materion / risgiau sy'n parhau i fod angen sylw i'r Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn gyda'r adroddiad nesaf yn ddisgwyliedig ym mis Medi, 2018.

• Oherwydd llithriad sylweddol o waith o 2016/17 a cholli dau swyddog trwy ymddeoliad ac ymddiswyddiad, mae'r adnodd sydd ar gael i gwblhau'r Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol ar gyfer 2017/18 wedi lleihau. O ganlyniad, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi cynnal asesiad risg gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran151. Mae adolygiadau archwilio wedi cael eu blaenoriaethu i sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu targedu i'r ardaloedd lle mae'r risg uchaf. Mae'r Cynllun Blynyddol diwygiedig ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad A. Hyd yn hyn, mae 79% o'r cynllun diwygiedig wedi'i gwblhau gyda'r 21% arall ar y gweill - cyfanswm cyfunol o 100%. Cwblhawyd 92% o'r archwiliadau mewn pryd yn erbyn targed o 90%. Cyflwynwyd 81% o adroddiadau Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a raglennwyd.

• Yng nghyswllt adolygiad arfaethedig y Pwyllgor o'i gylch gorchwyl, mae CIPFA unwaith eto wedi gohirio cyhoeddi ei gyfarwyddyd wedi'i ddiweddaru. Felly gofynnir i'r Pwyllgor gytuno i ohirio ei adolygiad tan y cyfarfod nesaf.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a chododd y pwyntiau canlynol -

• Nododd y Pwyllgor fod yr adolygiad archwilio o'r Trefniadau Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau Rhaglenni wedi canfod mai ychydig o arwyddocâd a roddir i asesiadau effaith ac i gofrestrau risg heb unrhyw dystiolaeth i ddangos bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda ymwybyddiaeth lawn o gynnwys yr asesiadau. Nododd y Pwyllgor ymhellach bod y risgiau a godwyd gan yr adolygiad wedi cael eu hasesu fel rhai cymedrol. Gofynnodd y Pwyllgor am esboniad ynghylch a ddylid, yn wyneb canfyddiadau'r adolygiad archwilio yn

canfod nad oedd digon o sylw yn cael ei roi i effaith prosiectau wrth wneud penderfyniadau, godi lefel y raddfa risg.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod matrics rheoli risg y Cyngor yn cael ei ddefnyddio i werthuso risgiau o ran beth fyddai'r effaith ar y Cyngor pe bai risg yn digwydd. Aseswyd bod y risgiau a godwyd o ganlyniad i'r adolygiad o Reolaeth Prosiect a Rhaglenni yn bendant yn y categori Melyn neu Gymedrol sy'n golygu nad ydynt yn rhai sylweddol. ystyriaeth fawr. Mae hyn ar y sail bod yr asesiadau effaith a'r cofrestrau risg yn cael hystyried ond nad oedd yr arwyddocâd dyledus yn cael ei roi iddynt.

• Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw trefniadau Rheoli Rhaglen y Cyngor yn cynnwys mesur allbynnau gwahanol brosiectau ac asesu a yw prosiectau'n cyflawni'r buddion a ragwelwyd yn wreiddiol ohonynt.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg y cynhelir adolygiadau ôl-weithredol ar ddiwedd pob prosiect. Fodd bynnag, roedd yr adolygiad archwilio yn canolbwyntio ar lywodraethu prosiectau a threfniadau rheoli rhaglenni'r Cyngor ac er bod yr adolygiad yn cynnwys samplu rhai prosiectau i gadarnhau bod yr holl elfennau wedi'u sefydlu, nid oedd yn golygu unrhyw brofion cydymffurfio o ran gwirio allbynnau gwirioneddol.

• Mewn perthynas â'r Adolygiad Dilyn-i-fyny o Gludiant Ysgol, nododd y Pwyllgor bod yr holl ddyddiadau targed o ran camau gweithredu sy'n parhau i fod angen sylw, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu gweithredu'n rhannol, wedi cael eu diwygio a'u hymestyn yn seiliedig ar y diweddariadau a dderbyniwyd. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod hyn yn dderbyniol i Archwilio Mewnol. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod Archwilio Mewnol yn fodlon bod y rhesymau dros ymestyn yr amserlenni yn rhesymol. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth ( Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod y system Capita ONE yn defnyddio cyfeiriadau disgyblion trwy'r system GIS i lunio'r llwybrau gorau posibl ar gyfer tacsis ysgol a bysiau mini. Gwnaed llawer o waith yn ystod y misoedd diwethaf i wirio cyfeiriadau ar y gronfa ddata. O gofio y disgwylir y bydd symudiad mewn perthynas â chronfa ddata'r disgyblion ym mis Medi wrth i ddisgyblion newid ysgolion, mae'r Awdurdod wedi gohirio gwaith ar y broses plotio llwybrau tan yr amser hwnnw er mwyn osgoi'r diwygiadau y byddai'n rhaid eu gwneud o ganlyniad i newidiadau yn y gronfa ddata. Drwy anelu at wneud y gwaith hwn ym mis Medi, gall yr Awdurdod gychwyn o'r newydd a llunio'r llwybrau ar gyfer y flwyddyn ysgol lawn.

• Nododd y Pwyllgor y bydd Bathodynnau Adnabod yn cael eu rhoi i bob gyrrwr bys ysgol ym mis Medi. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad am y trefniadau sydd ar waith yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi ac a yw'r oedi yn creu risg y gall yr Awdurdod ei oddef. Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod proses fetio wedi bod ar waith sy'n cynnwys gwiriadau heblaw am fathodynnau adnabod. Nododd yr adolygiad archwilio bod modd gwella a chryfhau'r broses honno ac y dylai bathodynnau adnabod fod yn un o'r gwelliannau y dylid eu cyflwyno.

• O ran gweithredoedd Rheoli, gofynnodd y Pwyllgor sicrwydd bod unrhyw risgiau / materion coch sydd heb eu cwblhau yn cael eu monitro'n agos. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod risgiau / materion Coch yn dueddol o godi mewn adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig; mae'r adroddiadau hyn yn cael eu dilyn-i-fyny yn rheolaidd fel bod Archwilio Mewnol yn ailedrych ar yr adolygiad pan mae'r camau i gael eu gweithredu. Nododd y Pwyllgor ymhellach y gall cyfnod o dri mis fynd heibio cyn i unrhyw gamau gael eu cymryd ynghylch risgiau coch. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg, er bod hyn yn bosibl yn dechnegol, mae'n annhebygol y bydd risgiau coch yn cael dyddiad gweithredu mor hir â thri mis oni bai ei fod yn fater corfforaethol sydd â dyddiadau gweithredu hwy na gweithredoedd / argymhellion sy'n ymwneud â gwasanaethau penodol. Dywedodd y

Swyddog bod y Pwyllgor yn cael adroddiad ar yr holl faterion a risgiau sy'n weddill ddwywaith y flwyddyn a bydd yn derbyn y diweddariad nesaf ar y mater hwn ym mis Medi.

- Nododd y Pwyllgor fod 79% o'r Cynllun Archwiliad Mewnol Blynyddol diwygiedig ar gyfer 2017/18 wedi ei gwblhau a chydnabuwyd bod hynny'n gamp o ystyried bod adnoddau staff wedi lleihau yn y cyfnod. Nododd y Pwyllgor ymhellach fodd bynnag bod hyn yn golygu bod 21% neu bumed rhan o'r Cynllun yn parhau i fod angen ei gwblhau, ac mae'n debygol y bydd rhai o'r rhain yn cario drosodd i 2018/19, gyda hynny'n ychwanegu at faich gwaith gwasanaeth ac o bosib yn rhoi pwysau ar staff. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd felly bod gan Gwasanaeth Archwilio Mewnol ddigon o adnoddau i allu cwrdd â disgwyliadau yn awr ac yn y flwyddyn i ddod. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod y 21% wedi cael ei ddisgrifio fel gwaith a oedd ar y gweill ar ddechrau mis Ebrill; ers hynny bu'n rhaid gohirio peth o'r gwaith hwn oherwydd nad oedd staff y Cyngor ar gael. Mae'r Cynllun Gweithredol yn cynnwys darpariaeth wrth gefn i alluogi'r gwasanaeth i gwblhau gwaith o gynllun y flwyddyn flaenorol; y nod hefyd yw cwblhau gwaith anorffenedig o Gynllun 2017/18 erbyn diwedd mis Ebrill.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad a yw Cynllun Gweithredol 2018/19 yn adlewyrchu'r lefel staffio bresennol (sef gostyngiad o 2 yn y sefydliad Archwilio Mewnol, un oherwydd arbedion effeithlonrwydd yn dilyn ymddeoliad a'r llall yn swydd wag yn dilyn ymddiswyddiad). Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am eglurhad ynghylch a fydd y blaenoriaethau o fewn y Cynllun yn newid tra bod swydd wag yn y gwasanaeth. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio, o ran y swydd wag ac yn dibynnu ar gyflymder recriwtio, bod Cynllun 2018/19 yn cynnwys amser y Swyddog hwnnw'n llawn. Dywedodd hefyd y bydd y Cynllun yn cael ei newid i adlewyrchu amgylchiadau a dywedodd bod y Cynllun Gweithredol Blynyddol ar gyfer Archwilio Mewnol yn ddogfen ddeinamig beth bynnag; nid dogfen 'un-amser' yn unig ydyw ond yn un sy'n cael ei diweddaru yn rheolaidd gan fod lefel a natur y risgiau'n newid gyda rhai risgiau'n cael eu tynnu ar rhai eraill yn cael eu hychwanegu at y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Dywedodd y Swyddog fod yr ymagwedd tuag at risg yn newid a bod yr arfer o asesu a blaenoriaethu risgiau yn barhaus yn golygu bod cynlluniau tymor hir yn cael eu disodli a hynny oherwydd bod unrhyw gynlluniau sy'n ymwneud â chyfnod o dros flwyddyn yn debygol o ddyddio yn gyflym iawn oherwydd bod y risgiau'n newid yn gyson. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ceisio dyrannu amser i feysydd y disgwylir iddo, ac y mae angen iddo, ymdrin â hwy ac nad ydynt yn seiliedig ar risg ond y mae Archwilio Allanol yn dibynnu arnynt, e.e. archwiliadau o systemau Ariannol allweddol tra bydd gweddill y cynllun yn canolbwyntio ar risg. Os bydd y Prif Swyddog Archwilio o'r farn nad oes gan y gwasanaeth yr adnoddau angenrheidiol i ymdrin â meysydd blaenoriaeth a / neu risgiau cyfredol yna byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Swyddog Adran 151 ac i'r Pwyllgor.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi cynnydd diweddaraf y Gwasanaeth Archwiliad Mewnol mewn perthynas â darparu gwasanaethau, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant a nodi hefyd fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn fodlon â'r sicrwydd a ddarperir.**
- **Cymeradwyo gohirio'r adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgor hyd nes bydd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn cyhoeddi ei ganllawiau newydd newydd.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd Blaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at Chwefror, 2019 i'w ystyried a'i adolygu .

Hysbysodd y Pennaeth Archwilio a Risg y Pwyllgor fod y Rhaglen Waith yn debygol o newid yn dilyn yr adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgor.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r Blaen Raglen Waith heb ei diwygio.**

**Cynghorydd Peter Rogers**
**Cadeirydd**